Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Brynteg
# High Street
# Abersychan
# Pont-y-pŵl
# Torfaen
# NP4 7DG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Feithrin Brynteg wedi'i lleoli ym mhentref Abersychan, ger Pont-y-pŵl ym mwrdeistref sirol Torfaen. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ac, ar hyn o bryd, mae 51 o blant ar y gofrestr, pob un ohonynt rhwng tair a phedair oed. Mae llawer o blant sy'n mynd i'r feithrinfa yn dod o gartrefi sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae saith o blant yn mynychu'n amser llawn; o'r gweddill, mae pob un ohonynt yn mynychu naill ai sesiynau'r bore neu sesiynau'r prynhawn. Mae un plentyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol ac ystyrir bod gan tua 6% o'r rhai sy'n mynychu'r feithrinfa ryw raddau o anghenion dysgu ychwanegol. Mae dau o blant yn cael cymorth gan asiantaethau allanol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant yno sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid yw'r un plentyn yn siarad Cymraeg fel mamiaith yn y cartref.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mai 2006 ac mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2009.

Cyllideb ysgol unigol 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Feithrin Brynteg yw £6,937, sy'n cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o £5,986 ar gyfer pob ysgol feithrin a gynhelir yng Nghymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn y saith maes dysgu;
- mae safonau lles plant yn uchel;
- mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac wedi'u cymell i ddysgu;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda; ac
- mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau symbylol, yn enwedig yn yr amgylchedd awyr agored.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu gan bob rhanddeiliad;
- mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei roi ar waith yn effeithiol iawn;
- mae'r holl staff yn chwarae rhan lawn yn y broses hunanarfarnu ac wrth gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwella;
- mae'r pennaeth yn rheoli adnoddau mewn ffordd arloesol; ac
- mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni a phartneriaid eraill i wella ansawdd ei darpariaeth.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella safonau ym medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu bechgyn;

A2 sicrhau bod gweithgareddau dan arweiniad oedolion yn bodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn gyson; a

A3 sicrhau bod targedau sy'n cael eu gosod yn y cynllun datblygu meithrin yn benodol, yn fesuradwy ac wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu a fydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn dechrau yn Ysgol Feithrin Brynteg gyda medrau priodol a ddisgwylir yn arferol ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn y saith maes dysgu.

Yn gyffredinol, mae asesiadau ysgol yn dangos bod bechgyn yn dechrau'r ysgol ar lefel ddatblygu is na'r merched. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn perfformiad yn lleihau wrth iddynt fynd ymlaen drwy'r ysgol, er bod merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Mae cyflawniad a chynnydd plant mewn gwersi yn dda ac yn briodol i'w hoedran.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu. Maent yn gwrando'n ofalus yn ystod sesiynau â ffocws ac yn ymuno'n hyderus â thrafodaethau mewn grwpiau bychain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan yn fodlon mewn sgyrsiau ag oedolion a'u cymheiriaid yn eu gwaith a'u chwarae. Maent yn defnyddio geirfa gynyddol i ofyn ac ateb cwestiynau ar lefel sy'n briodol i'w cam datblygu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Deallant ddiben ysgrifennu ac maent yn defnyddio technegau gwneud marciau i gopïo ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu gwahanol. Mae ychydig o blant yn dechrau ysgrifennu eu henw a deallant sut mae ysgrifennu yn cynnwys seiniau llythrennau, a gallant adnabod rhai llythrennau'n gywir. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n astud ar storïau, gan arddangos dealltwriaeth glir drwy eu hadweithiau a'u sylwadau. Mae llawer o blant yn ailadrodd storïau cyfarwydd gyda lluniau i ysgogi ac maent yn deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau. Mae bron pob un o'r plant yn trin a thrafod llyfrau'n gywir, gan droi'r tudalennau o'r chwith i'r dde. Fodd bynnag, nid yw bechgyn yn troi'n annibynnol at dasgau darllen ac ysgrifennu mor barod ag y gwna merched.

Mae plant yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol ar draws pob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio medrau mathemategol cynnar yn gywir i gyfrif gwrthrychau, eu rhoi mewn trefn a'u paru ac i adnabod rhifau a phatrymau syml. Mae llawer ohonynt yn gweithredu amrywiaeth o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, fel cyfrifiaduron tabled a chamerâu digidol, gyda rheolaeth a hyder.

Mae medrau meddwl plant yn datblygu'n dda. Bydd pob plentyn yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu ac yn mynd yn annibynnol at yr adnoddau y dymunant eu defnyddio. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau am gyfnod da wrth weithgareddau sydd wedi'u harwain gan oedolion a gweithgareddau a ddewiswyd yn annibynnol ganddynt. Maent yn gweithio'n dda ar y cyd mewn parau ac mewn grwpiau i archwilio a datrys problemau.

Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn mewn perthynas â'u gallu a'u mannau cychwyn.

Mae medrau Cymraeg plant yn datblygu'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn ymateb gyda dealltwriaeth i amrywiaeth o orchmynion a chyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg. Gall y rhan fwyaf o blant gyfrif y tu hwnt i bump, enwi lliwiau sylfaenol a siarad am y tywydd yn y Gymraeg. Mae ychydig o blant yn dechrau defnyddio Cymraeg yn ddigymell ac yn y cyd-destun cywir yn y feithrinfa.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; mae'r farn hon yn cael ei hategu'n gryf gan eu rhieni. Mae plant yn datblygu ymwybyddiaeth graff o sut i gadw'n ddiogel a bod yn iach a pham mae'n bwysig gwneud hynny. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd brwsio'u dannedd ac maent yn ymwybodol o'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â'r ffordd fawr pan fyddant allan yn y gymuned leol.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn drwy gydol y dydd. Maent yn ddysgwyr brwd, yn gwrtais tuag at oedolion ac yn ystyriol o'i gilydd. Maent yn gallu rhannu adnoddau gyda'u ffrindiau a dilyn rheolau ac arferion y feithrinfa yn dda. Mae bron yr holl blant yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth ym mhob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda mewn sesiynau, er bod ychydig ohonynt yn methu canolbwyntio pan fydd sesiynau dosbarth cyfan yn rhy hir.

Mae'r holl blant yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch beth maent yn ei ddysgu a sut ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i arfarniadau wythnosol. Maent yn mwynhau cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau fel casglu a pharatoi eu byrbrydau eu hunain a rôl 'helpwr heddiw'.

Mae presenoldeb wedi cynyddu'n gyson dros y tair blynedd diwethaf ac roedd tuag 89% yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae prydlondeb wedi gwella hefyd. Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd cyn bod y cofrestri'n cau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys ac mae'n bodloni anghenion a diddordebau plant yn effeithiol. Mae'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynnig ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb yr holl blant. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ardaloedd y tu allan.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu medrau siarad a gwrando, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant. Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod medrau plant yn cael eu datblygu'n gynyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau plant. Mae adnoddau fel pypedau, caneuon a thestunau cyhoeddedig a rhai wedi'u creu yn yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflwyno

geirfa newydd ac atgyfnerthu patrymau iaith. Mae staff yn fodelau da o ymddygiad o ran y Gymraeg. Defnyddiant y Gymraeg yn gyson drwy gydol y diwrnod yn eu harferion ac wrth roi cyfarwyddiadau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd i blant ofalu am yr amgylchedd yn llwyddiannus drwy ailgylchu, diffodd goleuadau a gwneud compost. Mae grŵp eco effeithiol ac mae'r ysgol wedi cyflawni ei hail wobr baner werdd yn llwyddiannus. Mae sesiynau ysgol goedwig wythnosol yn ymestyn dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a sut i ofalu amdano. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau priodol ag ysgol yn Affrica sy'n codi ymwybyddiaeth plant o fywyd mewn gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Cryfder penodol yn ansawdd cyffredinol yr addysgu yw'r berthynas waith agos sy'n bodoli rhwng staff a phlant. Mae staff yn defnyddio dulliau cadarnhaol er mwyn cynnal safonau ymddygiad uchel ac i ganmol gwaith da plant. Mae'r holl staff yn meithrin annibyniaeth plant yn llwyddiannus trwy annog plant i feddwl drostynt eu hunain. Mae staff yn defnyddio amrywiaeth gyfoethog o ddulliau ac adnoddau sy'n cynnal diddordeb plant am gyfnodau hir ac sy'n gwneud dysgu'n hwyl.

Mae bwriadau dysgu clir ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu haddasu'n ddigon da i sicrhau eu bod yn cyfateb i anghenion plant â galluoedd gwahanol.

Caiff cynnydd pob plentyn ei fonitro'n effeithiol gan ddefnyddio system olrhain yr ysgol a'r proffiliau asesu datblygiad plant. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n dda i nodi plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn rhoi adborth rheolaidd i rieni ar ba mor dda y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol yn ogystal â'u hadroddiad cynnydd blynyddol ysgrifenedig. Mae staff yn annog plant i arfarnu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd ac mae hyn yn llywio cynllunio at y dyfodol. Fodd bynnag, mae hyn yn canolbwyntio ar ddiddordebau plant yn hytrach nag ar ymestyn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd byw'n iach yn dda ac mae'n ystyried bod iechyd a diogelwch ei phlant yn flaenoriaeth uchel. Mae trefniadau priodol ar gyfer sicrhau ymddygiad da ac atal pob math o aflonyddu fel bwlio. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da trwy ddefnyddio gwobrau a thystysgrifau. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol ac ysbrydol plant. Mae cyfleoedd iddynt ddod yn ymwybodol o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r gweithdrefnau a'r systemau ar gyfer nodi, cefnogi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Mae cymorth ychwanegol sy'n cael ei roi mewn dosbarthiadau ac yn ystod cyfnodau tynnu'n ôl yn hynod effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol yn briodol a chânt eu harfarnu, eu diweddaru a'u rhannu gyda rhieni yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn ag ystod o wasanaethau arbenigol gan gynnwys gwasanaethau synhwyraidd a therapi iaith a lleferydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Feithrin Brynteg yn ysgol hapus. Mae'n hollol gynhwysol ac mae gan bob plentyn fynediad cyfartal at bopeth y mae'r ysgol yn ei ddarparu. Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau nad yw plant ag anableddau o dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Mae'r gofod mewnol yn lan ac wedi'i drefnu'n dda, gyda thri pharth pwrpasol sy'n canolbwyntio ar feysydd dysgu gwahanol. Mae'r ardal y tu allan yn rhagorol. Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu symbylol lle mae strwythurau gwneud niferus wedi cael eu cyfuno'n greadigol â'r amgylchedd naturiol i roi ystod eang o brofiadau dysgu i blant. Mae'r cyfleusterau y tu allan yn cynnwys ysgol goedwig, llwybr antur, cegin bridd, pwll a llwyfan. Mae cyflenwad da o adnoddau dysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys gliniadur a chyfrifiaduron tabled.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac ymdeimlad o gyfeiriad sy'n rhoi plant wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae hi wedi adeiladu tîm ymroddedig o staff addysgu a chymorth yn llwyddiannus, sy'n rhannu gwerthoedd cyffredin ac sydd â dealltwriaeth dda o anghenion plant ifanc a sut maent yn dysgu.

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n dda i arwain a rheoli'r ysgol. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda ac mae gan rieni hyder yn y tîm arwain. Mae gan yr holl aelodau staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda, sy'n cael eu cyflawni'n effeithlon ganddynt. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gyson i newidiadau a gynlluniwyd i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn nodi meysydd unigol a meysydd ysgol gyfan i'w gwella yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod targedau datblygu proffesiynol yn glir ac yn fesuradwy, nid yw'r rhai sy'n gysylltiedig â chynnydd disgyblion cystal.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac mae'n bodloni ei ymrwymiadau statudol drwy adolygiadau polisi rheolaidd. Datblygiad cadarnhaol diweddar yw'r rhaglen o ymweliadau unigol gan lywodraethwyr a'r adborth y maent yn ei roi ar eu harsylwadau â ffocws. Mae'r ymweliadau hyn yn gwella dealltwriaeth llywodraethwyr o waith yr ysgol ac maent yn dechrau datblygu gallu'r llywodraethwyr i gyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i fentrau lleol a chenedlaethol fel hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a datblygu medrau plant wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei roi ar waith yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r holl staff yn rhannu ymrwymiad i wella ansawdd yr addysg y maent yn ei chynnig i blant. Maent yn chwarae rhan lawn yn y broses hunanarfarnu ac wrth gytuno ar flaenoriaethau i'w gwella. Mae trafodaethau am gynnydd tuag at dargedau yn y cynllun datblygu meithrin yn nodwedd o gyfarfodydd rheolaidd staff a'r corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r data sydd ar gael am gynnydd a chyflawniad yn dda i neilltuo plant i grwpiau lle gall eu hanghenion dysgu gael eu bodloni'n fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, nid yw targedau ar gyfer codi safonau cyflawniad plant yn y cynllun datblygu meithrin bob amser yn benodol nac yn nodi'n ddigon clir sut bydd llwyddiant wrth gyflawni'r targedau hyn yn cael ei fesur.

Mae perthynas gadarn a chyfathrebu da â rhieni yn galluogi'r ysgol i gael gwybod eu barn a'i hystyried. Mae gweithdrefnau sefydledig ar gyfer arfarnu rhan plant yn y cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynnig. Mae staff yn gwrando ar awgrymiadau plant ac yn eu cymryd o ddifrif. Er enghraifft, yn ddiweddar, darparwyd offer go iawn yn yr ardal adeiladu ac maent wedi dechrau cloddio pwll yn yr ardd mewn ymateb i geisiadau'r plant.

Mae rhan yr ysgol mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysg a ddarperir. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgol feithrin arall i arfarnu'r defnydd o dechnolegau sgrin gyffwrdd gyfrifiadurol i wella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol ag ystod eang o bartneriaid. Mae cysylltiadau â rhieni, busnes a'r gymuned ehangach yn arbennig o gryf ac maent wedi galluogi'r ysgol i wneud gwelliannau sylweddol yn ansawdd ei darpariaeth. Er enghraifft, mae ei chydweithio â chwmni cyfrifiadurol yn cefnogi ymgysylltiad gweithgar staff, teuluoedd ac ysgolion partner mewn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant ac oedolion. Mae'r rhieni hynny sydd wedi cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r cyfle a gawsant ac mae cymhwysedd plant wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella o ganlyniad. Mae partneriaethau ag ysgolion cynradd bwydo yn sicrhau bod pontio'r plant o'r ysgol feithrin i gam nesaf eu haddysg yn cael ei reoli mor hwylus â phosibl. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd leol i gynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gofal plant, sydd o fudd i'r naill ysgol a'r llall.

Mae'r ysgol yn manteisio ar gymorth ac arbenigedd swyddogion o'r awdurdod lleol yn rhagweithiol, er enghraifft, i roi hyfforddiant i staff mewn meysydd a nodwyd i'w gwella.

Mae arferion gweithio ar y cyd da iawn â'r cylch chwarae cyfagos, sydd wedi'i leoli yn y neuadd gymunedol. Mae plant yr ysgol feithrin yn defnyddio'r neuadd unwaith yr wythnos ar gyfer datblygiad corfforol, ac mae plant o'r cylch chwarae yn defnyddio ardaloedd awyr agored yr ysgol feithrin. Mae plant yn y ddau leoliad yn elwa o'r trefniant dwyochrog hwn ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol a lles y plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr holl aelodau staff gymwysterau priodol a chaiff eu medrau eu defnyddio'n dda.  Mae trefniadau ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u cysylltu'n agos ag anghenion plant ac i'w helpu i gyrraedd targedau ar gyfer gwella yn y cynllun datblygu meithrin.  Mae athrawon a staff cymorth yn chwarae rôl arwyddocaol wrth gynllunio, monitro ac asesu deilliannau plant.  Maent yn cael amser paratoi priodol i gyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r pennaeth yn fedrus iawn wrth gael at offer ac adnoddau o ansawdd da sydd â chost isel iawn.  Mae aelodau staff yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn yn arbennig o dda er mwyn ysgogi plant a chefnogi eu dysgu.

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn monitro gwariant yn ofalus iawn i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n ddoeth er budd y plant.  Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth a deilliannau plant yn dda.  Felly, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oes data cymharol lleol neu genedlaethol ar gael ar gyfer yr ysgol hon.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Cafwyd 36 ymateb i'r holiadur i rieni a gofalwyr. Roedd yr ymatebion i'r holl ddatganiadau yn gadarnhaol iawn ac uwchlaw meincnodau cenedlaethol.

Dywed yr holl rieni eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent oll yn datgan bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod eu plant yn ddiogel yno. Mae'r holl rieni yn dweud bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod o'r farn bod staff yn trin yr holl blant yn deg a chyda pharch. Dywed yr holl rieni bod eu plentyn wedi cael helpu i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol a'u bod yn gyfforddus i droi at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Mae bron pob un o'r rhieni o'r farn eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r rhieni o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'w ysgol nesaf.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sarah Hurst | Arolygydd Cofnodol |
| Stephanie James | Arolygydd Tîm |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Claire Pritchard | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynda Ryan | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.